

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod:03.07.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Derick Lock, Eirion Evans, Pamela Jones, Gethin Edwards, Arwel Nicholas, Elfed Davies, Cyngorydd Sir, Irfon Jones
 Ymddiheuriadau: Danny Davies

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Derbyniwyd eu bod yn gywir – GE & DL	
Materion yn Codi	<p>Cynllun Gwella Trafnidiaeth – AN, DL a'r Clerc wedi cyfarfod gyda J McEvoy pryd trafodwyd: 'chicane' ar yr heol gerllaw iet fach y Cae Chwarae, symud arwydd 'Cae Chwarae' sydd o'r golwg o flaen y Ficerdy newydd i ochr draw yr heol, arwydd sydd yn flachio cyflymdra ar heol yr Ysgol a gwella'r cyffordd ar waelod Rhiw Cŵpers. Addawyd gosod cyfrifydd data trafndiaeth ar yr heol wrth ymyl y Neuadd Goffa, yr Ysgol a Phant – teg. Awgrymwyd gosod arwydd flachio cyflymdra ar bwys y Neuadd ond eu hanwybyddu mae gyrrwyr meddai EE ac ED yn cytuno. AN & EE yn dweud fod angen gwneud rhywbeth; e.e.beth am osod twmpathau ar yr heol sydd yn mynd heibio'r Ysgol? Cytunwyd nad oedd Cyfrifydd Data Trafnidiaeth yn llawer o werth ond o leiaf yr oedd yn arwydd fod y Cyngor yn gwneud rhywbeth. ED o'r farn iddo fod yn well gwneud penderfyniad am welliannau nawr cyn J McEvoy. Angen amserlen pan fydd y gwelliannau yn digwydd. Efallai yn well I flaenoriaethu'r Cae Chwarae ond fod diogelwch plant yn gysylltiedig a'r ddwy safle medd DL.</p>	
Gohebiaeth	<p>Cyflog Prif Weithredwr Cyngor Sir Gâr; Mark James – Clerc yn darllen sylwadau y Cyngorydd Emllyn Dole oedd yn dweud fod hi'n well cau pen y mwdwl ar y mater oherwydd nad oes modd gwneud newidiadau l'w gyflog o dan amodau ei gytundeb cyflogaeth. DL yn gofyn am gael gweld y cytundeb cyflogaeth; Clerc I ymholi.</p> <p>Yswiriant – Trafod prisiau Zurich a Came and Company. Er fod Came and Co. yn rhatach, penderfynnwyd aros gyda Zurich oherwydd y posibilrwydd nad oedd ganddynt amodau cystal. ED yn awgrymu gofyn I Zurich am ostyngiad, cynnigwyd y mater gan AN ac eiliwyd gan DL.</p> <p>Fferm Wynt Brechfa; Innogy – angen trefnu cyfarfod agored I grynhoi syniadau ar beth I wario'r arian. Clerc I gysylltu gyda Ymgynghorydd I drafod dyddiadau a chyhoeddu'r digwyddiad yn Llais y Llan.</p> <p>Jeremy Clulow – y dyn sydd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar</p>	

	dudalen Wé y Cyngor wedi atgyweirio'r dudalen a'r Clerc wedi diweddaru'r Cofnodion. Costau Etholiadau – yn cyfeirio at etholiadau Mai 2017 pan orfodwyd l'r Cyngorwyr gyhoeddu eu bod yn fodlon parhau l wasanaethu'r gymuned.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd, Cyfieithu, £75.00 – GE & PJ Cyflog y Clerc, £130.60 – AN & EE Costau Etholiadau, £192.80 – PJ & ED Swyddfa Archwilio Cymru, £250 – AN & DL Orchardweb, £60 – ED & AN	
UFA	AN – twll ar yr heol gerllaw Cartref GE – Dim PJ – Dim DL – Pwyllgor y Neuadd yn colli £250 am ganiatau l'r safle ailgylchu weithredu ar faes parcio'r Neuadd; a fyddde'r Cyngor yn fodlon digolledu'r Pwyllgor? AN yn gofyn l DL gyflwyno llythyr yn y cyfarfod nesaf er ./mwyn y cofnodion. ED yn gofyn l'r Clerc gysylltu gyda'r Sir l holi a oes ganddynt safle arall mewn golwg. Ail agor y Tai Bach; trafodwyd agor y tai bach oedd yn gwynebu'r heol ond ni fyddai ty bach ar gyfer yr anabl. IJ yn dweud fod angen cysylltu gyda'r Sir gyntaf er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa. PJ am wybod beth yw gofynion y Sir ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus. DL yn gorffen wrth ddweud mai mater l Bwyllgor y Neuadd a'r Sir l drafod oedd hwn. IJ – Dim ED – Twll ar heol Brynmeillion heb ei lenwi ac angen torri'r perthi. EE yn dweud mai Camddwr oedd wedi cael y cytundeb ond mai dyn o Feidrim sydd yn gwneud y gwaith. ED yn cyfeirio at gyflwr gwael yr heol rhwng Bancyn Glas a Bwthyn. EE – Dim DJ – Cyflwr truenus Rhiw Graig	
Cyfarfod yn gorffen 9.40		

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: